Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cynllun Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid

# Cylch Gorchwyl

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Pencadlys yr Heddlu
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
Rhif Ffôn: 01267 226 440
E-bost: opcc@dyfed-powys.police.uk
Gwefan: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk

Medi 2024

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm dros newid |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Mawrth 2016 | Hannah Hyde | |
| 2:0 | Chwefror 2020 | Caryl Bond | Llawlyfr wedi'i ddiweddaru er mwyn cynnwys gwybodaeth bellach am y Cynllun. |
| 3.0 | Mawrth 2022 | Caryl Bond | Diweddarwyd y llawlyfr yn unol â Pholisi Lles Anifeiliaid yr Ymddiriedolaeth Gŵn. |
| 4:0 | Awst 2024 | Tom Walters ac Ellen Jones | Adolygiad o'r llawlyfr |
| 4.1 | Medi 2024 | Tom Walters | Diweddarwyd y llawlyfr i fod yn gylch gorchwyl, polisi gwirfoddolwyr ac Amledd ac Amseriad ymweliadau |

**Tabl Cynnwys**

## Cynnwys


1. Polisi Gwirfoddolwyr ..... **Error! Bookmark not defined.**
2. Llawlyfr y Cynllun Lles Anifeiliaid ..... **Error! Bookmark not defined.**
3. Cyflwyniad i'r Cynllun Lles Anifeiliaid ..... **Error! Bookmark not defined.**
4. Safonau Lles Anifeiliaid ..... **Error! Bookmark not defined.**
5. Pwy yw ein Hymwelwyr Lles Anifeiliaid? ..... 4
6. Cymhwysedd a Phenodi ..... **Error! Bookmark not defined.**
7. Rheoli'r Cynllun ..... **Error! Bookmark not defined.**
8. Hyfforddiant Cynefino ..... **Error! Bookmark not defined.**
9. Trefniadau a Gweithdrefnau Ymweld ..... **Error! Bookmark not defined.**

9.1 Nifer yr Ymwelwyr Lles Anifeiliaid ..... **Error! Bookmark not defined.**
9.2 Amledd ac Amseriad Ymweliadau ..... 5
9.3 Cyfarfodydd a Hyfforddiant ..... **Error! Bookmark not defined.**
9.5 Ymwelwyr Wedi'u Hawdurdodi ..... **Error! Bookmark not defined.**
9.6 Trefniadau Ymweld â'r Adran Gŵn, Pen-bre ..... 7
9.7 Trefniadau Ymweld â Gorsafoedd ..... **Error! Bookmark not defined.**
9.9 Ymweliadau a drefnir gan yr Heddlu ..... **Error! Bookmark not defined.**
9.10 Diogeledd a Diogelwch Ymwelwyr Lles Anifeiliaid ..... 7
9.11 Cyflyrau Meddygol Anifeiliaid ..... **Error! Bookmark not defined.**
9.12 Gwirio anifeiliaid yn gorfforol ..... **Error! Bookmark not defined.**

10 Cwblhau adroddiadau a chamau dilynol ..... 8

10.1 Cwblahu ffurflenni adrodd ..... **Error! Bookmark not defined.**
10.2 Adroddiadau ar driniaeth ac amodau anfoddhaol ..... **Error! Bookmark not defined.**
10.3 Adroddiadau ar faterion yn deillio o ymweliadau ..... **Error! Bookmark not defined.**

11.0 Cyfrinachedd ..... 9
12.0 Monitro'r Cynllun ..... **Error! Bookmark not defined.**
13.0 Terfynu penodiad ..... 9
14.0 Treuliau ..... **Error! Bookmark not defined.**
15.0 Rôl sefydliadau ..... **Error! Bookmark not defined.**

## 1. Polisi Gwirfoddolwyr

Polisi trosfwaol yw'r Polisi Gwirfoddolwyr sy'n cynnwys egwyddorion cyffredinol gwirfoddoli ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh). Rhoddir copi o'r polisi i bob gwirfoddolwr. Yn ogystal, mae copi ar gael ar wefan CHTh neu drwy wneud cais i swyddfa'r Comisiynydd.

Mae'r Polisi'n rhoi gwybodaeth bellach ynglŷn â'r agweddau canlynol o wirfoddoli:

1. Rheoli'r cynlluniau gwirfoddoli;
2. Meini prawf cymhwysedd;
3. Recriwtio, ymgeisio a fetio;
4. Hyfforddiant;
5. Cyfnod prawf a daliadaeth;
6. Safonau, cyfrifoldebau a rolau gwirfoddolwyr;
7. Treuliau ac yswiriant;
8. Terfynu penodiad; cyfrinachedd a chael gwared ar ddogfennau;
9. Canllawiau cyhoeddusrwydd;
10. Lles a Chymorth; a
11. Datrys anghydfodau a chwynion yn erbyn yr Heddlu.

## 2. Llawlyfr y Cynllun Ymwelwyr Lles Anifeiliaid

Mae'r Llawlyfr hwn yn rhoi canllawiau manwl ar y trefniadau ymweld ar gyfer y Cynllun Lles Anifeiliaid yn Nyfed-Powys.

## 3. Cyflwyniad i'r Cynllun Ymwelwyr Lles Anifeiliaid

Yn sgil marwolaeth 'Acer', un o gŵn yr heddlu, tra yr oedd yn cael ei hyfforddi yn Essex ym 1997, a arweiniodd erlyn swyddogion yr heddlu, collodd y cyhoedd hyder yn nulliau hyfforddi cŵn yr heddlu, cafwyd sylw negyddol gan y wasg, a stopiodd sefydliadau lles anifeiliaid megis yr RSPCA a'r Ymddiriedolaeth Gŵn (Cynghrair Genedlaethol Amddiffyn Cŵn gynt) roi cŵn i'r gwasanaeth heddlu. Mewn ymateb i'r materion hyn, cynhaliodd Is-bwyllgor Cŵn Heddlu Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu adolygiad trylwyr a arweiniodd at ddatblygu strategaeth wedi ei anelu at adfer hyder y cyhoedd trwy sicrhau bod dulliau hyfforddi cŵn yr heddlu yn drugarog, moesegol a thryloyw.

Mae'n rhaid i hyfforddiant a lles anifeiliaid sydd yn gysylltiedig â gwaith yr heddlu fod yn agored, ac yn llawn mor bwysig, rhaid iddo gael ei weld i fod yn agored. I'r perwyl hwn, cyflwynwyd y Cynllun Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid.

Yn 2006, cyflwynodd y Ddeddf Lles Anifeiliaid hyd yn oed mwy o gyfrifoldeb i heddluoedd ddarparu ar gyfer anghenion y cŵn yn eu gofal. Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn berthnasol ar gyfer Cymru a Lloegr.

Pwrpas y trefniadau ymweld hyn yw galluogi aelodau penodedig o'r gymuned leol a gweithwyr proffesiynol o sefydliadau lles anifeiliaid i arsylwi, rhoi sylwadau ac adrodd ar les anifeiliaid sydd yn gysylltiedig â gwaith heddlu a'r amodau ar gyfer cadw, hyfforddi, cludo a defnyddio cŵn yr heddlu gyda'r bwriad o gynyddu dealltwriaeth a hyder mewn perthynas â'r materion hyn. Mae'r trefniadau hyn

hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer gwiriad annibynnol o'r modd y mae trafodwyr cŵn heddlu yn cyflawni eu dyletswyddau o ran yr anifeiliaid yn eu gofal.

Sefydlodd hen Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys y Cynllun Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl yn 2002. Ym mis Tachwedd 2012, etholwyd CHTh Dyfed-Powys, ac ar ôl ystyried manteision y Cynllun, penderfynodd barhau i'w weinyddu.

## 4. Safonau Lles Anifeiliaid

Mae ymwelwyr y Cynllun Lles Anifeiliaid yn archwilio'r modd y mae cŵn yr heddlu'n cael eu hyfforddi, eu cartrefu a'u cludo er mwyn sicrhau eu bod nhw'n bodloni safonau lles anifeiliaid. Nodir y 5 angen lles mewn deddfwriaethau ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Y 5 angen lles yw:

- Yr angen ar gyfer amgylchedd addas
- Yr angen ar gyfer deiet addas
- Yr angen i fedru arddangos patrymau ymddygiad normal
- Yr angen i'w cartrefu gydag anifeiliaid eraill, neu eu cadw ar wahân iddynt
- Yr angen i'w gwarchod rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefydau

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r 5 angen lles a'r hyn y dylai heddluoedd wneud i'w cyflawni, darllenwch Lawlyfr Cynllun Lles Anifeiliaid Annibynnol yr Ymddiriedolaeth Gŵn.

## 5. Pwy yw ein Hymwelwyr Lles Anifeiliaid?

Aelodau annibynnol o'r gymuned leol sy'n ymweld â chŵn yr heddlu a'u trafodwyr, canolfannau hyfforddi cŵn yr heddlu a llety heddlu lle mae cŵn yn cael eu cadw yw Ymwelwyr Lles Anifeiliaid. Gall ymweliadau gael eu trefnu ymlaen llaw neu fe allant gael eu cynnal yn ddirybudd. Daw Ymwelwyr Annibynnol o amryw o gefndiroedd a rhannau o'r gymuned. Er mwyn atal gwrthdaro buddiannau posibl a chynnal amhleidioldeb y cynllun, nid oes gan ein hymwelwyr annibynnol unrhyw gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r system cyfiawnder troseddol.

## 6. Cymhwysedd a Phenodi

Ceir manylion am feini prawf cymhwysedd i ddod yn Ymwelydd Lles Anifeiliaid yn y Fanyleb Rôl yn Atodiad A. Bydd pob cais yn cael ei drin yn ôl ei rinweddau, ond y ffactor gor-redol fydd atal gwrthdaro buddiannau posibl ar gyfer unigolion, a chynnal annibyniaeth a chywirdeb y cynllun yn ei gyfanrwydd. Dylai'r panel o Ymwelwyr Lles Anifeiliaid gynrychioli'r gymuned leol a cheisio sicrhau cydbwysedd o ran cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig, rhyw ac amrediad oed.

## 7. Rheoli'r Cynllun

Mae'r cynllun yn cael ei gydlynu gan SCHTh drwy'r Tîm Sicrwydd, a rheolwyr y cynllun yw'r pwyntiau cyswllt. Bydd gwirfoddolwyr yn cael gwybod am fanylion cyswllt uniongyrchol wrth ymuno â'r cynllun, a byddant yn cael eu hysbysu am

unrhyw newidiadau.

## 8. Hyfforddiant Cynefino

Gwahoddir pob Ymwelydd Lles Anifeiliaid i fynychu sesiwn sefydlu undydd a drefnir gan swyddfa CHTh. Hefyd, disgwylir iddynt dderbyn hyfforddiant gloywi unwaith y flwyddyn er mwyn cynnal lefelau gwybodaeth a sicrhau arfer gorau. Darperir yr hyfforddiant gan swyddfa CHTh, Adran Gŵn Heddlu Dyfed-Powys, a chynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Gŵn. Bydd y diwrnod hyfforddi'n cynnig y wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar yr Ymwelwyr i gynnal ymweliadau.

Disgwylir i Ymwelwyr Lles Anifeiliaid ymweld â'r Adran Gŵn ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer hyfforddiant cyn ymgymryd â'u dyletswyddau. Disgwylir iddynt gyflawni dau ymweliad o leiaf yng nghwmni Ymwelwyr Lles Anifeiliaid profiadol fel rhan o'u hyfforddiant, cyn iddynt ymgymryd â'u rôl.

## 9. Gweithdrefnau a Threfniadau Ymweld

### 9.1 Nifer yr Ymwelwyr Lles Anifeiliaid

Bydd swyddfa CHTh yn penodi digon o Ymwelwyr Lles Anifeiliaid er mwyn sicrhau bod pob Trafodwr Cŵn yn Nyfed-Powys yn derbyn nifer addas o ymweliadau ar hap.

### 9.2 Amledd ac Amseriad Ymweliadau

Yn ôl y cynllun, disgwylir i bob Trafodwr Cŵn dderbyn **o leiaf** un ymweliad mewn cyfnod o chwe mis.

Rhoddir rhestr o Drafodwyr Cŵn i ymwelwyr bob chwe mis, sy'n rhestru'r Trafodwyr Cŵn y disgwylir i bob ymwelydd ymweld â nhw.

Mater i'r ymwelydd annibynnol yw amseriadau'r ymweliadau, ond rhaid eu cynnal yn unol â'r Rhestr Trafodwyr a gyhoeddir gan SCHTh. Mae hyn er mwyn sicrhau bod pob ymweliad yn cael ei gynnal cyn diwedd y cyfnod rota chwe mis. Cydnabu bod pob ci a'i drafodwr ar alwad, ac weithiau, mae'n bosibl y bydd angen aildrefnu ymweliadau oherwydd anghenion gweithredol annisgwyl. Os nad yw'r swyddog yn medru bod yn bresennol, dylid rhoi esboniad llawn i'r Ymwelydd Lles Anifeiliaid a dylid cofnodi'r esboniad a rhoi gwybod i SCHTh. Ni ddylai'r un Trafodwr fynd 12 mis heb gael ei weld gan ymwelydd annibynnol. Bydd SCHTh yn monitro trefnu a chwblhau ymweliadau cyn diwedd pob rota 6 mis ac yn trafod cynnydd o fewn cyfarfodydd Panel. Trefnir cyfarfodydd Panel yng nghanol pob cyfnod rota 6 mis er mwyn caniatáu ar gyfer trafod unrhyw bryderon o ran trefnu neu gynnal ymweliadau ar amser.

Rhoddir manylion cyswllt ar gyfer y Trafodwyr Cŵn y disgwylir iddynt ymweld â nhw i ymwelwyr. Bydd ymwelwyr yn cysylltu â'r Trafodwr Cŵn yn uniongyrchol er mwyn trefnu'r ymweliad.

Dylai ymwelwyr gyrraedd pencadlys yr heddlu/yr orsaf heddlu/y lleoliad y

cytunwyd arno ar yr amser y cytunwyd arno. Gellir adolygu amledd yr ymweliadau o dro i dro; gan hynny, mae'n well bod Ymwelwyr yn ceisio osgoi cynnal ymweliadau ar amserau rheolaidd neu ragfynegadwy.

### 9.3 Cyfarfodydd a Hyfforddiant

Bydd SCHTh yn galw dau gyfarfod panel y flwyddyn. Bydd y panel yn cynnwys yr holl Ymwelwyr Lles Anifeiliaid, cynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Gŵn (neu sefydliad lles anifeiliaid arall), Rheolwr yr Adran Gŵn a gweinyddwyr Cynllun Lles Anifeiliaid CHTh. Bydd trefniadau ymweld ac unrhyw bryderon yn cael eu trafod yn y cyfarfod. Bydd SCHTh yn ymgysylltu â Rhingyll yr adran gŵn er mwyn lliniaru unrhyw bryderon neu faterion a godir, ac yn eu monitro os oes angen. Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd yn cael gwybod am unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfod ac unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i hyn. Trefnir un diwrnod hyfforddi cŵn ymarferol blynyddol er mwyn i bob Ymwelydd Annibynnol a sefydliadau lles anifeiliaid gwrdd â staff o'r adran gŵn.

### 9.4 Cyfrifoldebau'r Cadeirydd

Bydd y Cynllun Lles Anifeiliaid yn cael ei gadeirio gan wirfoddolwr sydd wedi mynegi diddordeb mewn cyflawni'r rôl. Bydd yr unigolyn sydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau'n dod yn Gadeirydd am flwyddyn; fodd bynnag, nid oes terfyn i ba mor hir y gall rhywun Gadeirio'r cyfarfod, yn amodol ar etholiad blynyddol llwyddiannus. Os yw'r Cadeirydd yn enwebu ei hun, mae'n rhaid i aelod arall ei eilio cyn i'r cyfarfod cyfan fwrw pleidlais. Caiff aelod o staff SCHTh ond ymgymryd â rôl Cadeirydd mewn amgylchiadau eithriadol.

Rôl y Cadeirydd fydd:

- Cadeirio cyfarfodydd panel, gan sicrhau eu bod nhw'n rhedeg ar amser.
- Sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl bryderon a thueddiadau a nodwyd gan Ymwelwyr Lles Anifeiliaid yn ystod y cyfnod cyn y cyfarfod ac yn medru dwyn y rhain yn adeiladol i sylw rheolwyr y cynllun cyn cyfarfodydd.
- Craffu ar ymatebion a roddwyd i unrhyw ymholiadau a godwyd mewn cyfarfodydd neu o ganlyniad i faterion a nodwyd ar ffurflenni adrodd.
- Cynorthwyo â'r broses o recriwtio a dethol Ymwelwyr Lles Anifeiliaid newydd.
- Sicrhau eich bod chi'n cynnal deialog rheolaidd gyda rheolwyr y cynllun ar bob mater arall, gan gynnwys gofynion hyfforddi a nodwyd, ymddygiad cydweithwyr, pennu rota ac ati.

### 9.5 Ymwelwyr Wedi'u Hawdurdodi

Dim ond yn unigol neu gydag Ymwelydd Lles Anifeiliaid achrededig arall y gellir cynnal ymweliadau. Ni ddylai mwy na dau ymwelydd fynd ar ymweliad gyda'i gilydd, gan y gallai partïon mwy o faint fod yn faich ychwanegol ar staff yr heddlu. Nid oes hawl gan ymwelwyr gael cwmni unrhyw berson anawdurdodedig o dan unrhyw amgylchiadau.

## 9.6 Trefniadau Ymweld â'r Adran Gŵn, Pen-bre

Ar gyrraedd yr Adran Gŵn a'r cytiau ym Mhen-bre, dylai ymwelwyr ofyn am weld y Swyddog ar Ddyletswydd a chyflwyno eu cerdyn adnabod. Yna, dylai'r ymwelydd gael mynediad i'r ardaloedd canlynol yn syth:

- Cytiau;
- Ystafell paratoi bwyd yr anifeiliaid; a
- Faniau cŵn (os ydynt ar y safle).

Dylai ymwelwyr gwahanol ymweld â chytiau Pen-bre o leiaf unwaith mewn bob cyfnod chwe mis. Bydd hyn yn cael ei drefnu ymlaen llaw wrth greu'r rota.

## 9.7 Trefniadau Ymweld â Gorsafoedd

Ar gyrraedd yr orsaf, dylai Ymwelwyr gyflwyno eu cerdyn adnabod a gofyn am gael gweld y Trafodwr Cŵn. Dylid cyflwyno'r anifail er mwyn i'r Ymwelydd ei archwilio. Yn ychwanegol at hyn, dylai cytiau a faniau cŵn gael eu harchwilio os ydynt ar y safle.

## 9.8 Mynediad i bob ardal lle mae anifeiliaid yn cael eu cadw, eu hyfforddi a'u cludo

Dylai ymwelwyr fodloni eu hunain bod yr ardaloedd yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da, a bod y dillad gwely yn lân ac yn addas. Nid oes angen gwirio storfeydd, ond dylai ymwelwyr sicrhau bod trefniadau addas mewn lle i sicrhau cyflenwadau digonol o offer a bwyd.

Dylid archwilio cytiau gwag hefyd er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr addas i gartrefu'r anifeiliaid.

## 9.9 Ymweliadau a drefnir gan yr heddlu

Gallai amgylchiadau godi lle bydd Heddlu Dyfed-Powys (HDP) yn dymuno trefnu ymweliad gan Ymwelydd Lles Anifeiliaid (gan gynnwys cyfeiriad cartref y Trafodwr Cŵn). Gallai ymweliad arbennig helpu i liniaru pryderon/ofnau'r cyhoedd am driniaeth a lles cŵn yr heddlu. Bydd y Swyddog â Gofal am yr Adran Gŵn yn gyfrifol am gysylltu â swyddfa'r CHTh i drefnu ymweliad mewn achosion fel hyn. Hefyd, os ydy HDP yn derbyn cwyn penodol yn ymwneud â lles anifeiliaid, dylai'r swyddog sydd yn ymchwilio i'r gŵyn ystyried cynnwys Ymwelwyr Lles Anifeiliaid.

## 9.10 Diogeledd a Diogelwch Ymwelwyr Lles Anifeiliaid

Er mwyn eu sicrwydd a'u diogelwch, rhaid i ymwelwyr fod yng nghwmni aelod o staff yn ystod yr ymweliadau. Mae'n rhaid i ymwelwyr lynu wrth gyngor a roddir gan Drafodwyr Cŵn a staff eraill ynghylch unrhyw faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch.

## 9.11 Cyflyrau Meddygol Anifeiliaid

Bydd ymwelwyr yn dymuno talu sylw arbennig i unrhyw anifail sy'n dioddef o salwch, anaf neu anabledd. Dylent fodloni eu hunain, os yn addas, bod milfeddyg wedi ei hysbysu, a sefydlu pa gyfarwyddiadau am driniaeth feddygol sydd wedi eu rhoi ac a ydynt wedi eu cyflawni.

Dylid nodi unrhyw bryderon ar y ffurflen adrodd yn unol â hynny a'u codi â'r Trafodwr adeg yr ymweliad.

### 9.12 Gwirio anifeiliaid yn gorfforol

Dylai ymwelwyr sicrhau bod lles a chyflwr corfforol yr anifail yn foddhaol. Dylid nodi unrhyw bryderon ar y ffurflen adrodd yn unol â hynny a'u codi â'r Trafodwr yn ystod yr ymweliad. Ym mhob achos, **rhaid** i'r ymwelydd geisio caniatâd y trafodwr cyn gwneud unrhyw archwiliad corfforol brysiog. Rhaid i'r ymwelydd lynu wrth y cyngor a roddir gan y Trafodwr o ran pa un ai a all yr ymwelydd gyflawni'r archwiliad corfforol ai peidio. Os yw'r trafodwr yn gwrthod archwiliad corfforol, caiff yr ymwelydd ofyn i'r trafodwr wneud hyn tra'i fod yn gwylio.

### 9.13 Archwilio cytiau cartref

Fel arfer, ni fydd hawl gan Ymwelwyr Annibynnol ymweld â chartrefi preifat swyddogion er mwyn archwilio cyfleusterau cwt, ond byddant yn ceisio adolygu cofnodion ysgrifenedig bod cytiau cartref Trafodwyr wedi'u harchwilio'n rheolaidd (bob 3 blynedd o leiaf) gan gynrychiolydd addas o'r gwasanaeth heddlu. Bydd yr Ymwelwyr Annibynnol yn dwyn unrhyw bryderon a allai fod ganddynt mewn perthynas ag anifail penodol i sylw SCHTh, ac yna bydd SCHTh yn cymryd y camau gweithredu priodol mewn perthynas ag archwilio cytiau sy'n cael eu cynnal yng nghartref y Trafodwr Cŵn. Ar ôl ymgynghori â'r Ymwelydd Annibynnol, bydd y Swyddog Cŵn Heddlu enwebedig yn cyflwyno adroddiad llawn i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

## 10 Cwblhau adroddiadau a chamau dilynol Cwblhau ffurflenni adrodd

Ar ddiwedd pob ymweliad, bydd Ymwelwyr Lles Anifeiliaid yn cwblhau ffurflen adrodd yn electronig neu ar bapur. Rhaid anfon copïau at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o fewn 14 diwrnod. **Ni** ddylai Ymwelwyr Lles Anifeiliaid gadw unrhyw gopïau o'r ffurflen adrodd ar gyfer eu cofnodion eu hun. Mae Atodiad B yn nodi'r gwiriadau argymelledig y dylai ymwelwyr ystyried fel sail ar gyfer cwblhau eu ffurflenni adrodd.

### 10.2 Adroddiadau ar driniaeth ac amodau anfoddhaol

Os yw ymweliad yn datgelu bod unrhyw agwedd o driniaeth y cŵn neu'r amodau o dan ba rai y maent yn cael eu cadw'n anfoddhaol, dylid eu cynnwys yn yr adroddiad a'u codi gyda'r Trafodwr Cŵn ar y pryd. Dylai unrhyw gamau gweithredu mae'r trafodwr yn eu cymryd hefyd cael eu nodi ar y ffurflen adrodd. Pe bai gan ymwelydd bryderon mewn perthynas â hunaniaeth ci penodol, gall ofyn am i dag electronig y ci gael ei sganio. Rhaid i hyn gael ei wneud ym mhresenoldeb yr ymwelydd.

### 10.3 Adroddiadau ar faterion yn deillio o ymweliadau

Bydd materion sy'n deillio o ymweliadau yn cael eu cyflwyno i SCHTh a fydd yn ystyried y camau gweithredu mwyaf priodol. Darperir adborth ar y camau a gymerwyd i ddatrys materion sy'n deillio o ymweliadau.

## 11.0 Cyfrinachedd

Tra'u bod nhw ar ddyletswydd, efallai bydd Ymwelwyr Lles Anifeiliaid yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol am faterion yn ymwneud â'r heddlu, felly gofynnir i ymwelwyr arwyddo ffurflen gyfrinachedd.

Dylai ymwelwyr fod yn ymwybodol y gallai datgelu gwybodaeth a gafwyd yn ystod ymweliad mewn modd amhriodol arwain at achos sifil neu droseddol. Pwysleisir na ddylid cynnwys gwybodaeth gyfrinachol yn yr adroddiadau ysgrifenedig a anfonir at SCHTh.

Petai Ymwelydd yn derbyn gwybodaeth neu gŵyn yn gyfrinachol mewn perthynas â lles ci penodol, dylid rhoi'r wybodaeth honno yn syth i SCHTh, a fydd yn cymryd camau priodol.

Rhoddir manylion cyswllt Ymwelwyr a Thrafodwyr Cŵn i ymwelwyr mewn cyfrinachedd llwyr er hwylustod cysylltu yn unig. Ni ddylid datgelu manylion o'r fath i unrhyw un arall.

Pan fydd ymwelydd yn gadael y cynllun, rhaid iddo sicrhau fod yr holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'i rôl yn cael ei dychwelyd i SCHTh.

## 12.0 Monitro'r Cynllun

Er mwyn cyflawni amcanion y cynllun, Cyflwynir adroddiadau am dueddiadau sy'n deillio o ymweliadau a gyflawnir i'r CHTh, sy'n monitro pob agwedd o'r cynllun ledled ardal Dyfed-Powys.

## 13.0 Terfynu penodiad

Bydd Ymwelwyr Annibynnol newydd yn cwblhau cyfnod prawf chwe mis. Dylai'r tymor mewn swydd ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol Lles Anifeiliaid fod yn dair blynedd; fodd bynnag, caiff aelod wneud cais i wasanaethu am dymhorau ychwanegol yn amodol ar gyfweliad ac adolygiad gan SCHTh. Nodir bod gan SCHTh yr hawl i wrthod rhoi caniatâd i'r aelod hwnnw wasanaethu am ail dymor, a chaiff ymatal rhag rhoi ei rheswm/rhesymau dros wneud hynny yn dilyn yr adolygiad tymor tair blynedd.

Er bod y rôl hon yn gwbl wirfoddol, mae gan SCHTh yr hawl i derfynu penodiad unrhyw wirfoddolwr nad yw'n cyrraedd y safon ddisgwyliedig o ran ymddygiad. Bydd gwirfoddolwyr yn arwyddo Cod Ymddygiad wrth ymuno â'r Cynllun, a disgwylir iddynt lynu wrth y safonau a nodir yn y ddogfen honno. Os yw ymddygiad yn syrthio'n is na'r safon honno, bydd SCHTh yn ystyried pa un ai a ddylai'r unigolyn hwnnw barhau â'i rôl.

Os na fydd ymwelydd wedi cynnal ymweliad o fewn chwe mis, neu os yw'n methu â mynychu hyfforddiant heb hysbysu SCHTh yn gyntaf, cysylltir ag ef er mwyn sefydlu pa un ai a diofalwch yw hyn, neu er mwyn ceisio esboniad. Efallai bydd angen i SCHTh ystyried safle'r ymwelydd ar y cynllun.

Dylai ymwelwyr hysbysu SCHTh os ydynt yn cael eu harestio a'u cyhuddo o dramgwydd troseddol, neu'n destun ymchwiliad ar gyfer unrhyw faterion lles anifeiliaid. Bydd eu cysylltiad â'r cynllun yn cael ei atal hyd nes y bydd canlyniad unrhyw weithdrefnau'n hysbys.

## 14.0 Treuliau

Mae'r gwaith yn gwbl wirfoddol, ond bydd costau teithio'n daladwy i bob ymwelydd wrth deithio ar gyfer ymweliadau. Dim ond costau trafnidiaeth gyhoeddus a milltiredd car preifat ar y gyfradd y cytunwyd arni fydd yn cael eu talu. Gellir hawlio treuliau ar gyfer mynychu sesiynau hyfforddi hefyd. Rhaid gwneud hawliad ar ffurflen berthnasol SCHTh. Ceir gwybodaeth bellach yn y Polisi Gwirfoddolwyr. Os bydd yn rhaid rhoi'r gorau i'ch ymweliad am unrhyw reswm, mae'n rhaid ichi hysbysu rheolwr y cynllun cyn gynted ag sy'n ymarferol a nodi'r rhesymau pam y rhoddwyd y gorau i'r ymweliad.

## 15.0 Rôl sefydliadau

Ers iddo ddechrau, mae'r Ymddiriedolaeth Gŵn wedi cefnogi Prif Gwnstabliaid i sefydlu a chynnal y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol Lles Anifeiliaid, drwy ddarparu gwybodaeth, cyfarfodydd a hyfforddiant ar gyfer swyddogion heddlu ac Ymwelwyr Annibynnol. Mae'r Ymddiriedolaeth Gŵn yn archwilio'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol Lles Anifeiliaid ar gyfer pob heddlu ac yn rhoi tystysgrif gydymffurfiaeth i'r rhai sy'n cydymffurfio â'r cynllun. Dim ond yr heddluoedd hynny sy'n aelodau o'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol Lles Anifeiliaid caiff fabwysiadu neu ailgartrefu cŵn o'r Ymddiriedolaeth Gŵn a sefydliadau lles cyfrifol eraill. Anogir pob heddlu i gysylltu â sefydliad lles anifeiliaid proffesiynol i weithredu fel corff ymgynghori, ac os oes angen, fel Ymwelydd Annibynnol.

## Atodiad A

| Ymwelydd Lleyg Er Lles Anifeiliaid – Manyleb Rôl | |
|---|---|
| **Bydd y meini prawf a gynhwysir o fewn y Fanyleb Rôl hon yn ffurfio'r sail ar gyfer cynnwys ymgeiswyr ar gyfer rôl Ymwelydd Lleyg Er Lles Anifeiliaid ar y rhestr fer. Mae'r meini prawf hyn yn ofynion angenrheidiol er mwyn caniatáu perfformiad effeithiol o fewn y rôl.** | |
| **Meini Prawf** | **Gallu** |
| Cymhwysedd | • Rhaid bod yn 18 oed neu'n hŷn;<br>• Yn ddelfrydol, byddwch yn byw, gweithio, neu astudio yn ardal Dyfed-Powys;<br>• Rhaid eich bod wedi byw yn y DU am 3 blynedd o leiaf cyn gwneud cais;<br>• Rhaid bod yn barod i ymweld â Thrafodwyr Cŵn Heddlu Dyfed-Powys yn rheolaidd, yn unol â'r rota perthnasol;<br>• Rhaid bod yn barod i fynychu sesiynau hyfforddi blynyddol;<br>• Ni chewch fod yn aelod presennol o'r heddlu neu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ac ni ddylech fod â chysylltiad anghyson â'r system cyfiawnder troseddol;<br>• Bod â dealltwriaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb a thegwch i bawb;<br>• Bod â'r gallu i gyfathrebu â gwahanol bobl ar lafar ac yn ysgrifenedig;<br>• Rhaid arfer annibyniaeth ac amhleidioldeb;<br>• Rhaid bod â'r gallu i adrodd ar ganfyddiadau mewn modd adeiladol;<br>• Rhaid bod â'r gallu i gynnal cyfrinachedd;<br>• Rhaid bod yn barod i fod yn destun proses fetio a darparu geirdaon;<br>• Rhaid arddangos gwybodaeth gadarn am faterion lles anifeiliaid neu feddu ar brofiad o hyn. |
| Gweithio gyda phobl | • Medru arddangos y gallu i weithio fel rhan o dîm;<br>• Y gallu i sefydlu a chynnal perthnasau gweithio da gydag amrediad eang o bobl. |
| Sgiliau cyfathrebu effeithiol | • Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn ysgrifenedig ac ar lafar;<br>• Y gallu i reoli ymrwymiadau a gwneud cyfraniad dibynadwy i'r Cynllun. |
| Cymhelliad | • Medru arddangos brwdfrydedd ar gyfer y rôl. |
| Parch at bobl | • Y gallu i drin pawb yn deg a gyda pharch, gwerthfawrogi amrywiaeth ac ymateb yn sensitif i wahaniaethau;<br>• Arddangos y gallu i fod yn agored i syniadau a dulliau gweithio newydd. |

**Atodiad B**

**CANLLAWIAU FFURFLEN ADRODD**
**Gwiriadau argymelledig**

A yw’r ci’n gallu cael dŵr yn rhwydd?

A yw’r ci’n edrych fel pe bai’n cael deiet sy’n ddigonol ar lefel faethol er mwyn aros yn iach?

A yw’r ci’n cael ei gadw mewn amgylchedd addas?

A yw’r amgylchedd yn lân?

A oes modd cadw’r amgylchedd mewn cyflwr glân?

A yw lloches y ci’n rhydd rhag peryglon, megis gwrthrychau miniog?
*(Mae lloches yn cyfeirio at (a) y drafnidiaeth neu (b) y cwt.)*

A yw lloches y ci’n rhydd rhag eithafion tywydd?

A oes man gorffwys cyfforddus?

A yw’r ci’n rhydd rhag unrhyw arwydd o boen, anaf neu glefyd?

Os na, a yw’r cyflwr wedi’i ddiagnosio?

A yw’r cyflwr yn cael ei drin yn iawn?


A oes gan y ci ddigon o le i fynegi ei ymddygiad arferol?

Os yw’n gweithio neu ar daith, a yw’r ci’n cael digon o gyfle i fynegi ei ymddygiad arferol?

A yw’r ci’n rhydd rhag unrhyw arwyddion amlwg o ofn a thrallod?

Os yw’n dangos ofn, trallod neu ddioddefaint meddyliol, a yw’r achos wedi’i nodi?

Atodiad C



Os na fydd y mater yn cael ei ddatrys neu os nad yw'r rhan fwyaf o'r Cynllun yn hapus gyda'r ymateb a dderbyniwyd, tynnir y mater i sylw'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gan y Pennaeth Sicrwydd mewn cysylltiad â Rheolwr y Cynllun
Os nad yw'r Prif Arolygydd Cymorth Gweithredol yn gallu cynnig cyngor neu eglurder, neu os nad yw'r aelodau'n fodlon â'r ymateb, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Heddlu Dyfed-powys fel y tybir ei fod yn briodol gan yr SCHTh
Os na all yr Adran Cŵn gynnig cyngor/eglurder, neu, os nad yw'r aelodau'n hapus â'r ymateb, bydd rheolwyr y cynllun (mewn cydweithrediad â chadeirydd y cynllun) yn cynyddu'r mater (os ystyrir yn briodol) i'r Pennaeth Sicrwydd a'r Prif Arolygydd Cymorth Gweithredol
Prif Arolygydd yn darparu ymateb i Reolwyr Cynllun sy'n diweddaru ymwelwyr
Mae'r Adran Cŵn yn rhoi'r diweddariad ac mae'r Rheolwyr y Cynllun yn bwydo'n ôl i ymwelwyr
Mae Rheolwr y Cynllun yn cysylltu â Rhingyll Adran Cŵn i gael datganiad y sefyllfa neu ofyn am weithredu
Mae'r Cadeirydd yn rhoi gwybodaeth hon i Reolwr y Cynllun
Aelodau i godi materiob/ pryderion/ymholiadau yng nghyfarfod y Cynllun
Mae ymwelwyr yn codi eu pryder/ ymholi/awgrym gyda'r Reolwr y Cynllun
CYCHWYN